

1. Aelodau'n Presennol Mr Dennis Evans Cadeirydd
Mri George Stuart; Gwilym Morris, Rhys Owen;
Wendy Griffiths; Carol Ann Jones;
2. Ymddiheuriadau Gwynfor Owen, Ceri Jones, Cyng Richard Jones, Cyng Aled M Jones
3. Datgan Diddordeb Neb
4. Darllen ac arwyddo Cofnodion Cyfarfod Gorffennaf 2015

5. MATERION YN CODI

- a) Archwiliad 2014-2015
Dogfennau wedi eu derbyn oddiwrth Hacker Young, gyda'g adroddiad lan.
Angen llenwi, arwyddo a gosod Rhybuddion a Datganiad
- b) Tir Ty'n LLidiart / Cae Chwarae
Adroddiad gan GLMP ar :
 - i) Sefyllfa'r brydles – dim newydd
 - ii) Ariannol – arian yng nghyfrif y Cyngor Cymuned wedi ei wario
 - iii) Copiau o gofnodion y Pwyllgor wedi'u derbyn
 - iv) Llythyr oddiwrth y pwyllgor ac amcan bris arall ynglyn a thorri'r gwair.
Hwn i'w drafod yng nghyfarfod Mis Hydref, gyda gwahoddiad i gynrychiolaeth o'r Pwyllgor Cae Chwarae i fod yn bresennol i ddatgan eu bwriad i godi arian i gynnal a chadw'r safle yn y dyfodol.
- c) Cloc
Prisiau ynglyn a drysau'r cloc mewn coedyn called wedi'u derbyn oddiwrth Hari Jones
Wedi ymgynhoriad gyda rhai o'r aelodau – Hari Jones wedi cael cyfarwyddyd i gario ymlaen
- ch) National Grid – llythyr yn dilyn cyfarfod Gorffennaf
- d) Gwarchod y Cyhoedd – Adroddiad gan GS

6. LLYTHYRAU

- a) National Grid – llythyr a chofnodion cyfarfod yn Langefni ar 28 Mai
- b) National Grid – Neuadd Rhosybol 7.11.15
- c) Cyngor Tref Amlwch – Gwasanaeth Tan Ynys Mon (Mr G Morris am fynychu)

GWYBODAETH

- i) Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - gwybodaeth
- ii) CIC – newidiadau drso dro i wasanaeth Merched a Mamolaeth 2015
- iii) CSYM – Ffeiriau sy'n teithio ar Mon

7. MATERION CYNLLUNIO

A) CEISIADAU CYNLLUNIO WEDI EU TRAFOD ERS Y CYFARFOD DIWETHAF

CYTUNWYD I GEFNOGI CEISIADAU I:

- A) ADDASU AC EHANGU YNYS FELEN FAWR, DULAS
- B) DYMCHWEL A CHODI GAREJ NEWYDD YN 1 BRYN HYFRYD
- C) ADDASU AC EHANGU TY'N CAEAU RHOSYBOL

B) CEISIADAU CYNLLUNIO ANGEN EU TRAFOD

- a) Estyniad i cwrtil Gorslwyd Fawr, Rhosybol - Dim Sylw
- b) Cais llawn i godi modurdy a gweithdy ar dir Pen Gwydd - Cefnogi

C) PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Ceisiadau canlynol wedi'u caniatáu :

- a) Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu o greu swyddfa fferm yn Bodneithr
- b) Cais llawn am newidiadau a gafodd ei gymeradwyo yn flaenorol i newid defnydd adeilad allanol presennol i annedd ac i greu mynedfa newydd i geir yn Tyn Garreg, Llandyfydog
- c) Cais llawn i godi anecs hunain gynhaliol yn y Bywyd Da, Rhosybol
- ch) Dymchwel annedd presennol ynghyd a chodi annedd newydd yn Four Crosses, Rhosgoch
- d) Man newidiadau i gynllun sydd wedi ei ganiatau yn flaenorol yn Deri Ganol, Dulas
- dd) Cais amlinellol i godi annedd newydd ger Gorwel, Rhosybol

8. BILIAU

- a) Cyflog y clerc (Medi) £222.32
- b) Hacker Young Archwiliad Allanol £246.00

9. MATERION ERAILL

- a) Consyrn ynglyn a phlant yn chwarae pel / damweinio ceir eto yn Alaw View Angen cysylltu hefo'r Cyngor Sir I gael arwyddion
- b) Baw Cwn
Hyn eto yn gonsyrn lleol
- c) Safle Yr Hen Farcwis
Y clerc i anfon cwyn unwaith eto ynglyn ar safle – gofyn am ffens ar ei hyd i guddio'r llanastra.
- ch) Y clerc i anfon nodyn at yr Adran Briffordd er mwyn cael torri'r gor dyfiant ochr Llanerchymedd i groeslon Lon Newydd i Lon Amlwch.

TRYSGLWYN MEDI 2015

Capel parc – cyfraniad at gost gwibdaith (£250)